Gofal ac amddiffyn plant sy'n ceisio lloches ac sy'n cael eu masnachu yng Nghymru

Agenda ar gyfer gweithredu

1. Cyflwyniad

Cefndir

Mae Achub y Plant yn credu y dylai plant sy'n ceisio lloches, plant sy'n ffoaduriaid a phlant sy'n cael eu masnachu gael eu gwarchod gan bolisïau a deddfwriaeth sy'n rhoi eu buddiannau gorau fel plant o flaen eu statws mewnfudo.

Yn 2005 cyhoeddodd Achub y Plant *Dyfodol ansicr*, adroddiad ynglŷn ag amgylchiadau plant sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teuluoedd a phlant sydd gyda'u teuluoedd sy'n ceisio lloches yng Nghymru. Roedd yr adroddiad yn archwilio'u profiadau o fyw yng Nghymru ac yn cynnig asesiad sylfaenol ynglŷn ag i ba raddau y mae datblygu polisïau, darparu gwasanaethau ac arferion presennol yn berthnasol i blant sy'n ceisio lloches. Roedd y canfyddiadau'n tynnu sylw at amrywiaeth o brofiadau plant a'r rheini'n cwmpasu pethau a oedd yn peri straen iddynt megis hiliaeth, tlodi, cael eu hynysu ac ansicrwydd ochr yn ochr â thystiolaeth bod plant yn ymdopi â byw yng Nghymru ac yn mwynhau'r bywyd hwnnw, am eu bod yn teimlo'n ddiogel, yn profi cyfeillgarwch ac yn meithrin dyheadau. Gwelodd yr ymarferwyr a fu'n rhan o'r astudiaeth amrywiaeth o faterion a oedd yn ymwneud â gofal ac amddiffyn plant yng nghyswllt plant sy'n ceisio lloches yng Nghymru. Roedd y rhain yn cynnwys sbectrwm o bryderon ynglŷn â lles plant a materion a oedd yn ymwneud ag ansawdd bywyd i faterion a oedd yn ymwneud â niwed difrifol, er enghraifft, masnachu plant, eu hamddiffyn rhag mathau o gam-drin sy'n seiliedig ar anrhydedd a diwylliant, a chadw plant yn gaeth. Roedd yr adroddiad hefyd yn tynnu sylw at yr amrywiaeth eang o sgiliau a gwybodaeth a oedd gan ymarferwyr y rheng flaen yng Nghymru, er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn a oedd yn ymwneud â gofalu am blant a'u hamddiffyn. Er bod enghreifftiau nodedig o arferion da, tynnwyd sylw at y diffygion o ran sgiliau yng ngwasanaethau'r brif ffrwd, a hynny yn yr ardaloedd gwasgaru yn ogystal ag yn yr ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd gwasgaru.

Er nad yw mewnfudo a lloches wedi'u datganoli yng Nghymru, cyfrifoldeb Llywodraeth y Cynulliad, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru yw darparu mwyafrif y gwasanaethau a gaiff ceiswyr lloches.

Ymarfer cwmpasu

Yn 2008, comisiynwyd ymarfer cwmpasu drwy Gymru gyfan gan Achub y Plant er mwyn adeiladu ar sail yr astudiaeth flaenorol hon. Ei bwrpas oedd gweld pa broblemau sy'n wynebu gweithwyr y rheng flaen o ran sicrhau bod plant sy'n cael eu masnachu, plant sy'n cael eu

gwahanu oddi wrth eu teuluoedd a phlant a theuluoedd sy'n ceisio lloches, yn cael gofal ac yn cael eu hamddiffyn, canfod bylchau hollbwysig yng ngwybodaeth a sgiliau'r gweithwyr hyn a gweld cyfleoedd i ddatblygu ymarfer. Mae'r rhain yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol, addysgwyr proffesiynol, yr heddlu, gweithwyr proffesiynol ym maes y gyfraith ac ym maes iechyd, gweithwyr y sector gwirfoddol / cymunedol, darparwyr tai, staff Asiantaeth Ffin y DU (UKBA).

Comisiynwyd tîm ymchwil[1] i ymgymryd â'r ymarfer hwn, gyda chymorth grŵp cyfeirio a'i aelodau'n dod o blith darparwyr gwasanaethau allweddol ac asiantaethau sy'n gweithio gyda phlant ifanc sy'n ceisio lloches yng Nghymru. Cynhyrchwyd papur ymchwil cefndir cynhwysfawr gan y tîm ymchwil ar sail canfyddiadau'r ymarfer cwmpasu. Mae'r crynodeb hwn yn crynhoi'r canfyddiadau hynny ac, ar ei ddiwedd, ceir nifer o argymhellion sydd wedi'u targedu at Lywodraeth y Cynulliad, awdurdodau lleol, Partneriaeth Mudo Strategol Cymru (WSMP) a chomisiynwyr a darparwyr gwasanaethau eraill yng Nghymru. Mae hefyd yn nodi nifer o faterion y dylid mynd i'r afael â hwy ym maes polisi ac ariannu. Er gwaethaf ambell ddatblygiad nodedig ym maes polisi ac ymarfer, mae llawer o'r materion y tynnwyd sylw atynt wedi'u nodi eisoes yn *Dyfodol ansicr* ac mewn astudiaethau eraill. Dagrau pethau yw bod y problemau hyn yn dal i fodoli er gwaetha'r gwaith ymchwil a'r ymgyrchu a fu o blaid gwireddu hawliau plant a gwella'u lles.

Drwyddi draw, bu 131 o staff o ystod eang o feysydd gwasanaeth yn rhan o'r astudiaeth. O blith y rhain, roedd 81 yn ymarferwyr o'r ardaloedd gwasgaru ac o'r ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd gwasgaru, roedd 32 yn aelodau o Fyrddau Lleol Diogelu Plant ac roedd 18 yn cynrychioli cyrff allweddol yr ymgynghorwyd â hwy hefyd, megis Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, Llywodraeth y Cynulliad, WSMP, UKBA, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyfiawnder Lloches, Cyngor Ffoaduriaid Cymru, a'r NSPCC.

Drwy gydol yr ymarfer cwmpasu, roedd rhai'n galw am drafod mater gofal ac amddiffyn plant sy'n cyrraedd gyda'u rhieni fel gwladolion y gwledydd diweddaraf a dderbyniwyd i'r UE neu fel mudwyr economaidd. Er bod rhai o'r un materion yn codi, mae statws cyfreithiol ac ariannol plant mudol yn codi problemau gwahanol. Sefydlwyd Rhwydwaith Ymarferwyr Plant Mudol[2] er mwyn hwyluso ymchwil a datblygu polisi ymarfer yn y maes hwn.

Datblygiadau diweddar ym maes deddfwriaeth a pholisi

- ***Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd Dan Ddeddf Plant (2004)*** (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2006) – mae'r ddogfen hon yn cynnig cyfarwyddyd statudol ynglŷn â dyletswyddau a chyfrifoldebau diogelu darparwyr statudol a darparwyr gwasanaethau eraill.
- **Fframwaith Asesu Cyffredin** Llywodraeth y Cynulliad – pecyn amlasiantaeth arbrofol. Ei nod yw sicrhau y dynodir anghenion pob plentyn mewn angen yn fuan, yn enwedig y rheini a chanddynt anghenion ychwanegol, a'u bod yn cael y gwasanaethau sy'n briodol ar eu cyfer.
- Ym mis Awst 2008, mae'r Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi ei bwriadau i gysoni UKBA â'r asiantaethau hynny sydd eisoes yn dod dan Adran 28 Deddf Plant 2004, drwy ei gwneud yn ddyletswydd gyfreithiol ar y sefydliad i ddiogelu a hyrwyddo lles plant fel rhan o'r **Mesur Dinasyddiaeth a Mewnfudo** (2008) sydd ar y gweill. Bydd hwn yn disodli Cod

[1] Tracey Maegusuku-Hewett, Louise Kalicinski, a'r Dr Nina Maxwell, Canolfan Gwaith Cymdeithasol ac Ymchwil Gofal Cymdeithasol, Prifysgol Abertawe.
[2] Hwyluswyd gan Plant yng Nghymru.

Ymarfer UKBA y bwriedid iddo roi mesurau newydd ar waith i ddiogelu plant o fewn y drefn mewnfudo.

- **Dileu'r Amod ynglŷn â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn** – Ym mis Medi 2008, cyhoeddodd llywodraeth y DU y byddai'n dileu ei hamod ynglŷn ag Erthygl 22 y Confensiwn. I grynhoi, mae Erthygl 22 yn ymrwymo'r Llywodraeth i roi'r un hawliau i blant sy'n geiswyr lloches ag a roddir i blant sy'n ddinasyddion. Roedd amod y Llywodraeth yn effeithio ar hawliau plant sy'n destun trefniadau rheolaeth mewnfudo a chofnodwyd yr amod hwnnw pan gadarnhawyd y Confensiwn gan y DU yn 1991.
- **Polisi Cynnwys Ffoaduriaid Llywodraeth Cynulliad Cymru** - fe'i lansiwyd ym mis Mehefin 2008, ac mae'n cynnwys adran arbennig ynglŷn â phlant a phobl ifanc. Noddwyd swydd cynghorydd arbenigol ar gyfer Cymru gyfan a bydd y cynghorydd hwnnw'n cynghori ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant sy'n ceisio lloches a gyda phlant sy'n ffoaduriaid. Mae hyn yn ddatblygiad i'w groesawu a lleolir y swydd yn swyddfa Partneriaeth Mudo Strategol Cymru. Bydd canfyddiadau'r adroddiad hwn yn rhestru'r blaenoriaethau allweddol y dylai'r swydd hon fwrw ymlaen â hwy.
- **Diwygio'r drefn ar gyfer Plant sydd ar eu pen eu hunain ac sy'n ceisio Lloches**[3] - Yn 2007, cyhoeddodd llywodraeth y DU ei bwriad o wasgaru plant a oedd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu i 'awdurdodau arbenigol' ledled y DU fel rhan o gynlluniau ehangach i ddiwygio'r drefn lloches gyfreithiol a'r cymorth i blant sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu. Hefyd, mae'n cynnig diwygio'r polisi ymadael dewisol gyda'r nod o gynyddu nifer y plant sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu sy'n dychwelyd i'r wlad y daethant ohoni. Ychydig o gynnydd a welwyd, er bod UKBA erbyn hyn yn dweud mai ei nod yw sicrhau bod y diwygiadau hyn ar waith erbyn 2009.
- **Model Newydd ar gyfer Lloches (NAM)** – Er 2007, bydd plant sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu a phlant sydd wedi cyrraedd y DU o'r newydd gyda'u teulu wedi cael eu 'prosesu' o fewn y 'Model Newydd ar gyfer Lloches' / Model Lloches (NAM). Mae'r broses yn adlewyrchu'r gwaith ad-drefnu mawr a fu ar y system lloches. Prosesu'n gynt yw'r nod yn y pen draw gyda'r penderfyniadau'n cael eu gwneud o fewn 30 diwrnod calendr ar ôl dyddiad y cais, ac os bydd cais pobl yn aflwyddiannus, eu hanfon o'r wlad yn ddiymdroi gan ddefnyddio mwy ar reoli a chadw'n gaeth 'o'r naill ben i'r llall'. Yn sgil hyn, mae gofyn i bob plentyn deuddeg oed a hŷn sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu gael cyfweliad cychwynnol.

Pa blant?

Plant sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu

Gelwir plant sydd dan 18 oed ac nad oes ganddynt riant, gofalwr arferol neu gyfreithlon yn y DU yn blant sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu neu'n blant sydd ar eu pen eu hunain. Maent yn gwneud cais am loches yn eu henw hwy eu hunain ac, yn ôl y gyfraith, mae awdurdod lleol yr ardal lle maent yn ceisio cymorth yn gyfrifol amdanynt. Dan *Ddeddf Plant* 1989, mae'n ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i gynorthwyo 'plant mewn angen' a darparu llety ar gyfer grwpiau penodol o 'blant mewn angen'. Roedd yr ymarfer cwmpasu hefyd yn edrych ar y gofal a'r amddiffyn a ddarperir ar gyfer pobl ifanc sy'n cyrraedd 18 oed, gan fod y cyfnod pontio wrth droi'n oedolyn yn codi anawsterau penodol o ran gofalu am y bobl ifanc hyn a'u hamddiffyn. Enghreifftiau o'r anawsterau hyn yw gadael darpariaeth gofal, mynediad at addysg uwch a'r posibilrwydd y cânt eu gorfodi i ddychwelyd i'r wlad y daethant ohoni. Mae'n bosibl y bydd rhai plant sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu wedi dod i'r DU drwy gael eu masnachu (gweler isod).

[3] Rhaglen Diwygio'r Drefn ar gyfer Plant sydd ar eu Pen eu Hunain ac sy'n Ceisio Lloches.

Plant sy'n cael eu masnachu

Ac ystyried natur gudd y gyfundrefn masnachu, mae'n anodd mesur maint y broblem hon. Mae gwahaniaeth rhwng smyglo a masnachu. Bydd rhai plant yn cael eu smyglo i'r DU yn gyfrinachol er mwyn dod i mewn i'r DU ac osgoi trefniadau rheoli'r ffin. Mae llawer o bethau'n sbarduno masnachu plant, megis camfanteisio rhywiol, a mathau eraill o gamfanteisio, er enghraifft trawsblannu organau, caethwasiaeth domestig, priodasau gorfodol, mabwysiadu, cardota neu smyglo cyffuriau. Hyd yn hyn, ychydig o waith ymchwil sydd wedi'i wneud yng Nghymru'n benodol i weld i ba raddau y mae masnachu plant yn digwydd yma. Mae'r astudiaeth cwmpasu hon yn edrych ar yr hyn y mae ymarferwyr yn ei wybod am fasnachu ac mae'n archwilio'r arferion presennol o ran mynd i'r afael ag achosion gwirioneddol neu achosion posibl.

Plant mewn teuluoedd

Pan fydd plant yn cyrraedd Cymru gyda'u teulu, fel rheol, byddant yn byw dros dro mewn llety derbyn bychan cyn cael cynnig cartref dan un o gontractau UKBA yn un o ardaloedd gwasgaru Cymru. Y pedair ardal wasgaru y cytunwyd arnynt yng Nghymru yw Abertawe, Casnewydd, Caerdydd a Wrecsam. Bydd UKBA yn cysylltu ag Awdurdodau Lleol ac â darparwyr tai preifat gan ofyn iddynt ddarparu llety a chymorth i deuluoedd sy'n ceisio lloches ac i oedolion sengl nes ceir penderfyniad ynglŷn â'u cais.

2. Canfyddiadau Cyffredinol

Lefel wybodaeth gyffredinol ymarferwyr ynglŷn â materion sy'n ymwneud â phlant sy'n ceisio lloches, boed y rheini wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu neu gyda'u teulu

- Roedd yr ymarferwyr hynny a chanddynt gysylltiad rheolaidd â phlant sy'n ceisio lloches mewn ardaloedd gwasgaru'n gyfarwydd â pholisïau lloches a chymhlethdod gweithio i hybu a diogelu lles y plant hyn.
- Mae gwahaniaethau sylweddol rhwng staff yr ardaloedd gwasgaru a staff yr ardaloedd eraill o ran eu hymwybyddiaeth o bolisi ac ymarfer sy'n ymwneud â phlant sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu.
- Anaml y bydd ymarferwyr ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd gwasgaru'n cael cysylltiad â'r plant hyn, ac felly, prin yw eu gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud â lloches.
- Er bod gan rai o'r staff rywfaint o wybodaeth, roedd angen esbonio terminoleg allweddol sy'n ymwneud â'r maes lloches wrth eraill, gan gynnwys y termau 'ceisiwr lloches', 'ffoadur' 'mudwr' a 'smyglo'.
- Barn y rhai a ymatebodd yn y gogledd oedd bod y ffordd y rhennid adnoddau a gwybodaeth rhwng ardal boblog y de ac ardaloedd mwy gwledig a gogleddol Cymru'n annheg.

Demograffeg a phlant yn cyrraedd Cymru

- Ar hyn o bryd, mae 2146[4] o geiswyr lloches wedi'u gwasgaru yng Nghymru, ac mae 61% (1303) o'r rhain yn cael eu dosbarthu'n 'ddibynyddion' - priod neu blant fydd y rhain yn bennaf.
- Nid oes ffigurau pendant ar gael yn rhwydd eto ynglŷn â faint o blant sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu yng Nghymru. Gwelodd ymchwilwyr fod yr ystadegau ynglŷn â nifer y plant sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu yng Nghymru'n dameidiog a'u bod yn deillio o ffynonellau amrywiol. O'r ystadegau sydd ar gael, amcangyfrifa Llywodraeth y Cynulliad[5] fod 160 o blant a oedd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu'n cael cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol ledled Cymru[6] yn 2006-2007. Yn ôl UKBA, ym mis Mai 2008, roedd 41 o blant wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu[7] yn ceisio lloches dan system NAM.
- Nid oes gan ymarferwyr mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd gwasgaru fawr o wybodaeth ynglŷn â bod gofyn i awdurdodau lleol lenwi'r Gofrestr Genedlaethol ar gyfer Plant ar eu Pen eu Hunain (NRUC) nac ynglŷn â bod angen rhoi gwybod i Lywodraeth y Cynulliad faint o blant a phobl ifanc sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu sydd yn eu hardal hwy.

Asesu oedran plant sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu

Wrth ddod at yr awdurdodau mewnfudo i geisio lloches a/neu wrth iddynt ddod at y gwasanaethau cymdeithasol i geisio gofal a chymorth, mae'n bosibl y bydd dadl ynglŷn â'u hoedran, ac felly, bydd gofyn asesu eu hoedran (gan weithwyr cymdeithasol fel rheol) er mwyn penderfynu a ddylid trin plentyn y mae dadl ynglŷn â'i oedran (a) fel oedolyn ynteu fel plentyn dan y drefn lloches; a (b) a yw'n gymwys i gael cymorth fel plentyn. Nid oes ystadegau ar gael i ddangos canran y bobl ifanc y mae dadl ynglŷn â'u hoedran sy'n byw yng Nghymru.

- Awgryma tystiolaeth anecdotaidd fod dadleuon ynglŷn ag oedran yn digwydd yn amlach yn yr ardaloedd hynny lle ceir nifer fwy o bobl ifanc ar eu pen eu hunain.
- Nodwyd bod y drefn asesu oedran yn amrywio. Dywedid y byddai awdurdodau mwy o faint yn dibynnu ar gyfweliadau byr a sefydlu hygrededd ond y byddai awdurdodau llai'n tueddu i gynnal asesiadau hwy gan ganolbwyntio mwy ar elfennau bugeiliol.
- Nodwyd bod llawer o anawsterau ynghlwm wrth gynnal asesiadau a phenderfynu ynglŷn ag oedran. Yn benodol, cafwyd anhawster yn sgil diffyg gwybodaeth ddiwylliannol, ac ansicrwydd ynglŷn â phwy a oedd yn gyfrifol am ofalu am yr unigolyn ar y pryd.
- Roedd nifer o'r rhai hynny a ymatebodd nad oeddent yn weithwyr cymdeithasol yn feirniadol o ansawdd rhai o asesiadau oedran ambell wasanaeth cymdeithasol gan awgrymu efallai fod cymhellion ariannol yn sail i hynny. Gwrthodwyd hyn gan un gweithiwr cymdeithasol a ddywedodd fod y penderfyniadau ynglŷn ag oedran yn gymhleth a bod angen cynnal asesiadau teg er mwyn lleihau'r risg i blant agored i niwed a ddeilliai o dybio ar gam mai oedolion oeddent a'r gwrthwyneb.

[4] Ystadegau Mai 2008.

[5] Ffynhonnell: gohebiaeth e-bost gyda Llywodraeth y Cynulliad, Gorffennaf 2008.

[6] Roedd y ffigur hwn yn cynnwys nifer o achosion lle'r oedd pobl ifanc dros 18 oed, bod ganddynt statws ffoadur, eu bod wedi dianc, eu bod yn y carchar neu fod eu cais wedi methu. Cynhwyswyd y bobl ifanc hyn yn yr arolwg ar y pryd, gan eu bod neu gan iddynt dderbyn cymorth ac felly bod elfen o gost i'r awdurdod lleol dan sylw.

[7] Dim ond at y plant hynny a oedd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu ac a oedd yn hawlio lloches dan system NAM y mae'r ffigur hwn yn cyfeirio.

- Mewn ardaloedd lle'r oedd llai o blant wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu, roedd 'asesu oedran' yn beth yr oedd gweithwyr cymdeithasol, aelodau'r tîm ar ddyletswydd mewn argyfwng, yr heddlu ac ymarferwyr y system cyfiawnder ieuenctid yn amlwg yn poeni yn ei gylch.
- Nid oedd ymarferwyr gwaith cymdeithasol mewn ardaloedd nad oeddent yn ardaloedd gwasgaru'n gyfarwydd â phrotocol Cyfarwyddwyr Cynorthwyol y Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) ar gyfer asesu oedran a chydymffurfio â Merton.[8]
- Dywedodd ymarferwyr eu bod yn poeni am roi plant mewn llety ar gyfer oedolion (a'r posibilrwydd y byddai pobl nad oes penderfyniad wedi'i wneud ynglŷn â'u hoedran eto'n cael eu gosod gyda phlant) nes bod y ddadl ynglŷn ag oedran wedi'i datrys.

Cymorth i blant a phobl ifanc sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu

- Bydd rhai ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd gwasgaru'n gosod plant 'y tu allan i'r sir' mewn ardaloedd mwy amrywiol o ran eu hethnigrwydd er mwyn darparu adnoddau diwylliannol a chymdeithasol. Tynnai ymarferwyr sylw at y ffaith y gallai hyn ynysu pobl ifanc oddi wrth gymorth gwaith cymdeithasol.
- Mae rhai awdurdodau lleol yn arddel agwedd strategol at ofalu am blant sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu ac at eu cefnogi drwy ddyfeisio polisi, drwy gael gwybodaeth gan awdurdodau lleol yn Lloegr, a thrwy sefydlu gweithgorau amlasiantaeth er mwyn sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc hyn yn cael digon o gymorth.
- Mae rhai awdurdodau lleol yng Nghymru'n dal i ddarparu llety ar gyfer pobl ifanc dan Adran 17 yn hytrach na than Adran 20 y *Ddeddf Plant* sy'n groes i Gyfarwyddyd Llywodraeth y Cynulliad yn 2005 ynglŷn a rhoi cymorth i deuluoedd sy'n ceisio lloches ac i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches.[9]
- Mae prinder llety addas ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn gyffredinol a phrinder rhieni maeth hefyd, yn enwedig i'r rheini sy'n 15 oed ac yn hŷn.
- Roedd lefel gwybodaeth ymarferwyr sydd wedi cael rhywfaint o gysylltiad uniongyrchol â phlant sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu'n amrywio ond dangosai'r dystiolaeth fod angen rhagor o eglurder ynglŷn â hawliau i gael budd-daliadau, cymorth ar ôl 18 oed a chynllunio cyfochrog / triphlyg, y rhaglen datrys hen achosion, NAM/ prosesau lloches, a rhaglenni diwygio'r UASC. Mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd gwasgaru, ychydig o gysylltiad a gaiff ymarferwyr a rheolwyr â phlant sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu a'r teimlad oedd eu bod yn 'cael eu taflu i'r pen dwfn'.
- Yn gyffredinol, y tu allan i'r ardaloedd gwasgaru, nid oedd gan ymarferwyr fawr neu ddim ymwybyddiaeth o'r cynlluniau sydd ar y gweill i ddiwygio'r UASC.
- Mae darparu Gweithiwr Eiriolaeth Plant rhan-amser ar gyfer plant sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu yn swyddfa Cyngor Ffoaduriaid Cymru'n ddatblygiad i'w groesawu. Arian ar gyfer cyfnod penodol yw arian Llywodraeth y Cynulliad, ac nid yw'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn gallu mynd i'r afael â'r holl faterion gwahanol na chefnogi'r nifer o blant sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu yng Nghymru.

[8] Cyflwynwyd dyfarniad Merton gan Burnton J yn yr uchel lys ar 14 Gorffennaf 2003. Mae'n rhoi 'cyfarwyddiadau ynglŷn â'r gofyniad cyfreithiol i awdurdod lleol asesu oedran ceisiwr lloches ifanc sy'n honni ei fod dan 18 oed'. Mae gofyn i bob awdurdod lleol, yn dilyn dyfarniad Merton, sicrhau bod eu hasesiadau'n llawn ac yn gynhwysfawr, bod y broses ar gyfer asesu oedran yn glir, yn dryloyw ac yn deg. Mae rhagor o wybodaeth am Gydymffurfio â Merton ar gael yn:
http://www.childrenslegalcentre.com/Resources/CLC/Documents/PDF%20A-M/Merton%20Note.pdf

[9] http://wales.gov.uk/1546306/circulars/2005/english/NAFWC23-05-e.pdf?lang=en)

Cymorth i blant mewn teuluoedd

- Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr tai sydd dan gontract i UKBA yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion, â'r gwasanaethau cymdeithasol ac â'r gwasanaeth iechyd.
- Mae darparwyr tai statudol yn dda am ddarparu cymorth ychwanegol ar gyfer teuluoedd, er enghraifft, pan fyddant yn cyrraedd gyntaf a bod angen iddynt setlo mewn ysgol, mewn cymdogaeth a defnyddio gwasanaethau lleol.
- Mae'r WSMP yn gweithio gyda Thîm Rheoli Contractau Tai Rhanbarthol UKBA er mwyn mynd i'r afael â'r gofynion cyfyngedig ar hyn o bryd sydd ar ddarparwyr tai i ddangos sut y maent yn diwallu anghenion lles a gofal ac amddiffyn pobl ifanc ac i wella'u polisïau amddiffyn plant.
- Mae gofyn i deuluoedd sydd wedi cael statws ffoaduriaid fel rhan o ymarfer clirio'r hen achosion 'symud yn eu blaen' i dai cymdeithasol y brif ffrwd. Roedd hyn yn tarfu dipyn ar deuluoedd am fod angen iddynt symud. Mewn un ardal, roedd darparwr tai i geiswyr lloches yn ceisio goresgyn hyn drwy drefnu i deuluoedd aros yn yr un eiddo a oedd wedi'i neilltuo gan UKBA. er mwyn ceisio osgoi tarfu ar addysg y plant, ac er mwyn iddynt gadw'u ffrindiau ac pharhau i integreiddio i'r gymuned.
- Mae ansawdd y llety a ddarperir ar gyfer ceiswyr lloches a'r offer mamolaeth hanfodol sydd ar gael i famau a babanod bach – e.e. cot ac offer steryllu, yn amrywio.
- Mewn ambell achos, gwelwyd diffyg preifatrwydd mewn tai a rennid e.e. roedd gofyn i fam a babi newydd-anedig rannu ystafell gyda menyw arall.

3. Canfyddiadau ynglŷn â gwasanaethau penodol

Addysg

Mae addysg yn chwarae rhan bwysig ym mywyd plant a phobl ifanc ac yn yr astudiaeth *Dyfodol ansicr* gwelwyd fod y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn meddwl bod cael addysg yn beth gwerthfawr iawn. I lawer, mae'r ysgol yn cynnig cyfeillgarwch, trefn sy'n rhoi sefydlogrwydd ac mae'n sail i'w gobeithion ar gyfer y dyfodol.

- Ymddengys fod gwasanaethau cymorth Saesneg fel iaith ychwanegol (EAL) wedi bwrw gwreiddiau a bod tipyn o arferion da wedi datblygu o ran cefnogi plant sy'n ceisio lloches. Mae un awdurdod lleol yn darparu gweithiwr EAL i gyfarfod â phlant pan fyddant yn cyrraedd ardal yn y lle cyntaf ac i'w helpu i setlo yn yr ysgol.
- Weithiau, ychydig o wybodaeth a fydd gan athrawon y brif ffrwd am faterion sy'n berthnasol i ofalu am geiswyr lloches a'u hamddiffyn.
- Dywedodd rhai ymarferwyr nad yw ysgolion bob tro'n ymdrin yn briodol â chwynion myfyrwyr ynglŷn â bwlio hiliol.
- Cysylltiadau da â'r maes iechyd a thai er mwyn hybu lles plant.
- Mae ymarferwyr yn poeni nad yw pobl ifanc bob tro'n gallu cael gafael ar addysg ôl-16 a dosbarthiadau dysgu iaith, a bod hynny o bosibl yn llesteirio'u cyfle i ddatblygu'n addysgol ac i integreiddio. Gall hyn arwain at ynysu cymdeithasol.
- Er bod llawer o blant ceiswyr lloches yn cael cynnig lle mewn addysg uwch, nes bod y bobl ifanc hyn (neu eu rhieni) yn cael statws ffoaduriaid, ni chaniateir iddynt weithio, na

chael benthyciad myfyrwyr, grant gan y llywodraeth na chyfraddau ffioedd myfyrwyr cartref er mwyn mynd i'r brifysgol.

Gwasanaethau cyfieithu

Ni ddylid defnyddio plant i gyfieithu. Gwneir hyn yn glir mewn sawl polisi a chyfarwyddyd gan Lywodraeth y Cynulliad gan gynnwys yn *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n gilydd dan Ddeddf Plant 2004, y Polisi Cynnwys Ffoaduriaid 2008* a *Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.* Dywed y rhain *'y gall defnyddio aelodau'r teulu neu ffrindiau'n gyfieithwyr beri anawsterau a dylid osgoi hyn'.* Dywed Cyfarwyddyd Masnachu Plant Llywodraeth y Cynulliad 2008 ei bod yn debygol y bydd angen cyfieithwyr achrededig ar blant sydd wedi cael eu masnachu.

- Mewn theori, mae gan awdurdodau lleol yr ardaloedd gwasgaru wasanaethau cyfieithu digonol ac, fel rheol, bydd staff y rheng flaen yn gwybod sut mae cael gafael ar y gwasanaethau hyn.
- Nid yw ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd gwasgaru na gwasanaethau'r brif ffrwd bob tro'n ymwybodol bod cyfleusterau cyfieithu ar gael neu nid ydynt yn gallu sicrhau bod y cyfieithwyr yn briodol ar gyfer y cyd-destun.
- Nid yw rhai darparwyr gwasanaethau'n darparu cyfieithwyr oherwydd y costau sy'n gysylltiedig â hynny, oherwydd nad ydynt yn sylweddoli bod angen y ddarpariaeth hon neu oherwydd nad ydynt yn gwybod am y gwasanaethau cyfieithu sydd ar gael.
- Mae rhai gwasanaethau'n dal i ddefnyddio plant i gyfieithu ac i gyfryngu ar ran eu rhieni, gan roi plant mewn sefyllfaoedd amhriodol. Nid yw hyn er lles gorau'r plant, yn enwedig pan fyddant yn gorfod rhannu manylion a oedd yn ôl un ymatebydd yn '*fanylion echrydus*'.
- Bydd rhai gwasanaethau'n defnyddio cyfieithwyr anffurfiol ac mae hyn yn destun pryder oherwydd gallai defnyddio cyfieithwyr sydd heb eu cymeradwyo neu heb eu hyfforddi beri risg i'r plant o ran rhannu gwybodaeth a chadw cyfrinachedd ac o ran ansawdd a chywirdeb y cyfieithu.
- Nododd nifer o fydwragedd a gweithwyr proffesiynol eraill yn y maes iechyd yr anawsterau sy'n codi wrth geisio cael gafael ar wasanaethau cyfieithu yn ddirybudd, a gallai hyn arwain at oblygiadau difrifol.

Iechyd

Mae anghenion iechyd plant sy'n ceisio lloches yn amrywio. Mae eu hiechyd yn dibynnu ar y profiadau a gawsant yn y gorffennol yn y wlad y daethant ohoni, eu profiadau presennol yn y DU megis tlodi, diffyg mynediad at ofal iechyd yn y gorffennol, cyflyrau sydd heb gael diagnosis ac yn sgil hynny, anghenion iechyd sydd heb eu trin. O fewn yr ymarfer cwmpasu hwn, nodwyd llu o gyflyrau iechyd ond roedd pryder amlwg ynglŷn ag iechyd a lles meddwl y rhieni a'r plant.

- Ym mis Mawrth 2008, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad y byddai gofal iechyd nad oedd yn ofal brys ar gael i 'geiswyr lloches yr oedd eu cais wedi methu'. Fodd bynnag, nid oes cyfarwyddyd wedi'i roi i'r Byrddau Iechyd Lleol eto ac mae hyn yn peri dryswch ynglŷn â'u hawliau.
- Mae timau nyrsys penodol ledled ardaloedd gwasgaru Cymru'n canolbwyntio'u hymdrechion ar sicrhau mynediad at iechyd a darparu mynediad teg at ofal iechyd.
- Ym marn ymarferwyr iechyd, mae oedolion a phlant sy'n geiswyr lloches yn wydn iawn. Fel rheol, yn sgil eu hamgylchiadau a'u profiadau y codai problemau iechyd meddwl, a gan amlaf, roeddent yn gwella wrth i'w sefyllfa wella.

- Nid oes darpariaeth iechyd meddwl arbenigol ar gael ar gyfer plant sy'n ceisio lloches yng Nghymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn dal i boeni am y diffyg CAMHS i blant sy'n ceisio lloches ac mae'n dweud y dylid cynnig gwasanaethau cwnsela yn y gymuned yn yr ardaloedd mwyaf anghenus.
- Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi strategaeth yn ddiweddar i ddatblygu gwasanaethau cwnsela haen un mewn ysgolion yng Nghymru.
- Mae rhai plant a phobl i fanc yn ysgwyddo cyfrifoldebau gofalu am rieni ac am frodyr a'u chwiorydd sy'n sâl.

Cynhaliaeth les a gorfodi pobl i fyw mewn tlodi

Wrth iddynt ddisgwyl canlyniad eu cais am loches, gwaherddir ymgeiswyr rhag gwneud gwaith cyflog ac maent yn dibynnu ar gymorth sylfaenol y gwasanaeth lles[10] gan UKBA. Mae hyn yn arwain at ganlyniadau difrifol i blant a'u teuluoedd. Bydd plant sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu'n dibynnu ar gymorth y gwasanaethau cymdeithasol. Os gwrthodir lloches i ymgeiswyr sengl dros 18 oed, os ydynt wedi defnyddio'u holl hawliau i apelio, a'u bod yn anghymwys neu'n gwrthod gwneud cais am y cymorth a elwir yn 'Adran Pedwar' a ddarperir ga' UKBA,[11] rhoddir statws 'dim hawl i gael arian cyhoeddus' (NRPF) iddynt.[12] Mae hyn yn berthnasol i rywun sy'n dod o dan drefniadau'r rheolau mewnfudo, nad oes ganddynt yr hawl i weithio ac nad oes ganddynt yr hawl i fudd-daliadau lles, cartref cyhoeddus, na chymorth lloches UKBA. Ar hyn o bryd, os bydd cais teulu am loches yn methu, byddant yn dal i gael cymorth UKBA. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i ddarparu cymorth gofal, gan gynnwys llety a chynhaliaeth, i gategorïau penodol o bobl â statws NRPF ac sy'n 'wynebu caledi arbennig'. Mae 'wynebu caledi arbennig' yn disgrifio pobl sydd wedi cael eu hasesu dan ddeddfwriaeth gofal yn y gymuned a/neu ddeddfwriaeth plant a bod angen gofal a sylw arnynt sy'n mynd y tu hwnt i 'ddim ond' diffyg llety a chynhaliaeth. Mae'r maes gwaith hwn yn un cymhleth lle bydd cyfraith mewnfudo, gofal yn y gymuned a hawliau dynol yn gorgyffwrdd. Bydd y ffordd y dehonglir y gyfraith yn newid yn rheolaidd yn sgil cyfraith achos. Mae cyfarwyddyd ar gael i awdurdodau lleol, er enghraifft, gwefan yr NRPF a ddarperir gan Gyngor Islington.[13]

- Mae camau megis dillad elusennol ail law a chyfrannu teganau, prydau ysgol am ddim, grant ar gyfer gwisg ysgol, ac, mewn un ardal, arian i blant fynychu gweithgareddau a mynd ar dripiau ysgol, yn gymorth i liniaru effaith tlodi ac allgáu cymdeithasol.
- Mae effaith dibynnu ar gymorth lles sylfaenol gan UKBA yn cael ei gwaethygu yn sgil y cynnydd diweddar mewn prisiau, yn enwedig yng nghyswllt anghenion deiet, maeth a darparu dillad ar gyfer plant.
- Dywedodd ymarferwyr na all y plant a'r bobl ifanc y maent yn cysylltu â hwy fforddio â gwneud yr un fath â'u cyfoedion nac ymuno â chlybiau'r brif ffrwd megis y sgowtiaid. Gall hyn arwain at stigma i blant a'u hallgáu'n gymdeithasol.
- Bydd teuluoedd y rhoddir statws ffoaduriaid iddynt yn ei chael yn anodd croesi'r bont i fanteisio ar fudd-daliadau'r brif ffrwd a thai cymdeithasol. Hefyd, nid oes ganddynt y seilwaith ariannol na'r rhwydwaith teulu estynedig i'w cynorthwyo i groesi'r bont i gymdeithas Cymru.

[10] Sef, 70% a 100% o lefel y Cymhorthdal Incwm ar gyfer oedolion a phlant yn y drefn honno.
[11] Dan Adran 4 *Deddf Mewnfudo a Lloches* 1999, caniateir darparu cymorth i rai cyn geiswyr lloches. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys darparu llety a thalebau'n unig, ac ni chaniateir rhoi cymorth ar ffurf arian parod.
[12] Un o'r meini prawf ar gyfer cael cymorth A4 yw ei bod yn rhaid i'r ceisydd gytuno i ddychwelyd adref yn wirfoddol.
[13] Rhwydwaith Heb Hawl i Gael Arian Cyhoeddus d/o/ Cyngor Islington.
http://www.islington.gov.uk/Health/ServicesForAdults/nrpf/

- Mae ymarferwyr yn teimlo dan bwysau eithriadol wrth ymdrin ag achosion 'heb hawl i gael arian cyhoeddus' ac maent yn ei chael yn anodd darparu neu gynnal gwasanaethau i ungolion dan yr amgylchiadau hyn. Nid oes ganddynt lawer o wybodaeth ynglŷn â sut mae asesu NRPF ac nid yw'n glir i ba raddau y mae awdurdodau lleol yn defnyddio'r cyfarwyddyd.

4. Y broses lloches

Ymdrinnir â cheisiadau am loches y sawl sydd wedi cyrraedd y DU er mis Mawrth 2007 dan y Model Lloches Newydd (NAM). Bydd pob ceisydd arall sydd wedi gwneud cais cyn hynny'n cael eu trin dan y 'Rhaglen Datrys Hen Achosion' Yng Nghymru, mae'r Tîm Lloches Rhanbarthol yng Nghaerdydd ac mae'n gwasanaethu Cymru a De Orllewin Lloegr. Yn y gorffennol, nid yw canfyddiad ymarferwyr ynglŷn ag effaith y broses lloches ar blant a'u teuluoedd wedi bod yn un cadarnhaol.

- Ym marn y rhan fwyaf o ymarferwyr, mae rhanbartholi wedi gwella'r berthynas weithio gydag UKBA.
- Credir fod Perchnogion Achosion y Tîm Lloches Rhanbarthol yn ceisio cydweithio ac yn ceisio ystyried lles plant.
- Croesawyd y cyhoeddiad ynglŷn â'r ddyletswydd gyfreithiol newydd a roddid ar UKBA i ddiogelu a hybu lles plant fel rhan o Fesur Dinasyddiaeth a Mewnfudo 2008 sydd ar y gweill. Fodd bynnag, nododd ymarferwyr bod angen i staff UKBA ddeall yn llawn y materion sy'n ymwneud â gofal ac amddiffyn plant agored i niwed er mwyn rhoi'r ddyletswydd hon ar waith. Nodwyd hefyd fod angen i UKBA ymwneud ag asiantaethau statudol eraill ar sail amlasiantaeth er mwyn diogelu ac amddiffyn plant, er enghraifft drwy gynrychiolaeth ar y Byrddau Lleol Diogelu Plant.

Diogelu plant yn ystod y cyfweliad lloches

- Tynnodd UKBA sylw at nifer o newidiadau er gwell yn y broses o gyfweld plant sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu e.e. bydd gan berchennog yr achos yr hawl i ohirio cais os ydynt yn teimlo bod angen mwy o amser ar y plentyn/person ifanc i gasglu tystiolaeth berthnasol, er enghraifft adroddiadau meddygol neu seicolegol.
- Mae system NAM i bob golwg yn rhoi un gweithiwr i blant a phobl ifanc i ymdrin â'u cais yn ogystal â hwyluso trefn gyflymach i reoli ceisiadau am loches. Fodd bynnag, mae angen rhagor o ymchwil i asesu i ba raddau y mae hyn yn digwydd.
- Fel rheol, bydd y cyfweliadau'n hir iawn a bydd angen i berchennog yr achos ysgrifennu cofnod air am air â llaw. Credid bod hyn yn rhwystr rhag datblygu empathi â sefyllfa'r plentyn.
- Mae cynllun peilot ar y gweill ar hyn o bryd i ddarparu crèche i blant tra bo'u rhieni'n cael eu cyfweld a'r bwriad yw parhau â'r gwasanaeth hwn a'i ddatblygu. Ariennir y gwasanaeth hwn gan UKBA ac mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol hyd yn hyn.
- Roedd ymarferwyr yn poeni y bydd system y NAM yn arwain at fwy o blant a theuluoedd sydd 'wedi defnyddio'i holl hawl i apelio', oherwydd bod y drefn gyflymach yn creu'r potensial ar gyfer penderfyniadau gwael.
- Roedd rhai'n poeni hefyd bod perchennog yr achos yn aml yn anwybodus ynglŷn â'r wlad yr oedd y plentyn wedi dod ohoni ac ynglŷn â ffurfiau penodol ar erlid plant.

Cynrychiolaeth gyfreithiol

Cred ymarferwyr fod diffyg cynrychiolaeth gyfreithiol arbenigol a'r ffaith nad yw'r hyn sydd ar gael, ar gael yn eang, yn fater allweddol o ran gofalu am blant ceiswyr lloches a'u hamddiffyn.

- Yn ôl amcangyfrif cynrychiolydd Cyfiawnder Lloches, corff cyfreithiol elusennol annibynnol yng Nghymru mae wedi cynorthwyo dros 2000 o geiswyr lloches er 2005, ar sail *pro bono.* Plant sydd gyda'u teuluoedd a phobl ifanc sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu ac y mae dadl ynglŷn â'u hoedran yw llawer o'r rhain.
- Mae diffyg cynrychiolaeth gyfreithiol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i bobl ifanc sydd o bosibl yn wynebu canlyniadau niweidiol ar ôl iddynt gyrraedd 18 oed.

Ceiswyr lloches y mae eu cais wedi methu

Anogir gweithwyr cymdeithasol i chwarae rhan allweddol wrth gynllunio'n gyfochrog / driphlyg drwy baratoi pobl ifanc sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu ar gyfer y posibilrwydd y bydd yn rhaid iddynt ddychwelyd adref neu eu paratoi ar gyfer ymgartrefu yn y DU yn y tymor hwy, ac mae'r paratoi hwnnw'n baratoi emosiynol ac ymarferol.

- Credai rhai ymarferwyr fod paratoi pobl ifanc i ddychwelyd i'r wlad y daethant ohoni y tu hwnt i sail foesegol y proffesiwn. Fodd bynnag, credai eraill fod hyn yn ffordd o liniaru niwed.
- Cred rhai ymarferwyr fod cynllunio cyfochrog / triphlyg yn gallu rhoi straen ar y berthynas weithio gyda'r bobl ifanc a allai eu gweld yn bobl na ddylent ymddiried ynddynt. Hefyd, mae rhai pobl ifanc o bosibl am osgoi realiti cynlluniau o'r fath.
- Fe all oedolion ifanc sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu, sydd wedi defnyddio'u holl hawliau i apelio ac sy'n gwrthod cydweithredu â threfniant dychwelyd gyda chymorth, neu sy'n anghymwys i gael cymorth Adran 4, eu cael eu hunain mewn sefyllfa o wir galedi wedi hynny, gan ddibynnu fel rheol ar eu cyfoedion, ar eu cydnabod ac ar grwpiau gwirfoddol a grwpiau ffydd i gynnig lloches a bwyd iddynt. Gallant fod yn agored iawn i niwed ac mae'n bosibl y byddant yn troi at gyflogaeth anghyfreithlon.
- Bydd llawer o deuluoedd sydd wedi defnyddio'u holl hawliau i apelio'n dibynnu ar gymorth Adran 4 a chynhaliaeth ar ffurf talebau.
- Dywed Tasglu Lloches Cymdeithas Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Plant (ADCS) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol (ADASS) *ein bod yn derbyn ei bod yn rhaid i gynlluniau gofal a chynlluniau llwybr ystyried y posibilrwydd mai yn y wlad y daethant ohoni y bydd dyfodol y plentyn, ond rhaid i UKBA ddod o hyd i ffordd ddynol a llawn cydymdeimlad o ddychwelyd pobl ifanc sy'n ddeunaw oed. Ni allwn dderbyn nad oes gan blant sydd wedi bod yn derbyn gofal yr hawl i gael arian cyhoeddus a bod hynny'n golygu eu bod yn wynebu caledi difrifol ac yn agored i gamfanteisio'*.[14]
- Er bod teuluoedd sydd 'wedi defnyddio'u holl hawliau i apelio' yn cael cymorth gan UKBA, efallai na fyddant am ddychwelyd adref neu efallai eu bod yn ofni y cânt eu gorfodi i adael ac yn diflannu cyn eu cael eu hunain mewn gwir galedi ac yn hynod o agored i niwed.
- Ym mis Mawrth 2008, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad y byddai'n caniatáu gofal iechyd eilaidd i'r rheini y gwrthodwyd lloches iddynt.

[14] Gohebiaeth e-bost Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Awst 2008.

Gorfodi plant a phobl ifanc i adael a'u cadw'n gaeth

Amcangyfrifir bod 2000 o blant mewn teuluoedd ledled y DU yn cael eu cadw'n gaeth bob blwyddyn dan reolau mewnfudo.[15] Bydd plant sy'n geiswyr lloches o Gymru'n cael eu cadw am gyfnodau amrywiol mewn canolfannau cadw yn Lloegr er mwyn eu hanfon o'r wlad. Symudir plant o sefyllfaoedd cyfarwydd a chefnogol a'u cadw gydag oedolion, a phrin yw'r addysg, y gwasanaethau iechyd a'r cymorth cyfreithiol a fydd ar gael iddynt. Bydd cyfnod eu cadw'n gaeth yn amrywio o saith i 268 o ddiwrnodau. Eto i gyd, nid yw'r camau diogelu sydd ar gael ar hyn o bryd yn ddigonol er mwyn sicrhau bod plant a gedwir yn gaeth yn cael eu hamddiffyn rhag niwed. Yn ôl amcangyfrifon Mechnïaeth ar gyfer Mewnfudwyr a gedwir yn Gaeth (2008)[16] roedd dros 30% o'r plant yn Yarlswood wedi'u cadw yno'n ddiangen yn 2005-2006. Mae Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru'n eiriol ac yn lobïo fwyfwy ynglŷn ag achosion plant unigol sy'n geiswyr lloches. Ni lwyddwyd i gael gwybod beth oedd safbwynt adran gorfodi ranbarthol UKBA at y polisïau a'r camau y bydd swyddogion yn eu dilyn wrth iddynt orfodi trefniadau ac anfon plant a theuluoedd o'r wlad, a hefyd oedolion ifanc sydd wedi defnyddio'u holl hawliau i apelio.

- Er gwaethaf honiadau i'r gwrthwyneb, soniodd ymarferwyr am nifer o enghreifftiau o anfon plant a theuluoedd o'r wlad neu ymgais i wneud hynny a bod hyn yn codi pryderon difrifol ynglŷn â lles y plant.
- Cyfeiriodd ymarferwyr hefyd at enghreifftiau lle'r oedd plant ar y gofrestr amddiffyn plant wedi'u cadw'n gaeth neu wedi'u hanfon yn ôl i'r wlad y daethant ohoni yng ngofal yr oedolyn a oedd yn destun amheuon ynglŷn â diogelwch y plentyn.
- Un broblem fawr oedd yr effaith a gai profiadau'r trefniadau gorfodi a chael eu cadw'n gaeth yn y DU ar blant. Dywed ymarferwyr fod llawer o blant yn cael eu trawmateiddio gan y profiad ac yn dioddef iselder, yn gwlychu'r gwely, yn cael cur pen, pyliau o banig, ofn yn y bore (oherwydd eu profiad o'r hyn a elwir yn 'ymgyrchoedd y wawr'), problemau bwyta neu fwyta er mwyn cael cysur, teimlo'n gyfoglyd ac yn ddi-hwyl.

5. Amddiffyn a niwed sylweddol

Yn ogystal â chanolbwyntio ar y pryderon ynglŷn a gofalu ac amddiffyn sy'n codi yn sgil bod plentyn yn rhan o'r system lloches, roedd yr ymarfer cwmpasu'n cynnig cyfle i ystyried safbwyntiau ymarferwyr ynglŷn â'r niwed sylweddol a allai godi yn sgil arferion diwylliannol neu grefyddol a / neu yn sgil y ffaith bod plant yn fwy agored i niwed am eu bod wedi'u gorfodi i fudo. Roedd y ffactorau hyn yn amlwg yng nghanfyddiadau Ymchwiliad Laming 2003[17] i farwolaeth Victoria Climbie. Edrychwyd ar yr arferion presennol wrth weithio gyda phlant a theuluoedd o ran mynd i'r afael â'r materion hyn, gyda'r nod o weld beth yw'r pryderon allweddol ac ag agweddau ar arferion gorau.

- O ran amddiffyn plant, roedd ymarferwyr yn nodi anawsterau posibl a ddeilliai o wahaniaethau rhwng diwylliannau wrth ofalu am blant megis cosbi corfforol a rhieni'n gadael plant gartref ar eu pen eu hunain.
- Poenir nad yw'r Byrddau Lleol Diogelu Plant yn bwydo gwybodaeth a chyfarwyddyd perthnasol i'r ymarferwyr ar y rheng flaen.

[15] No Place for a Child, Save the Children, 2006.
[16] http://www.biduk.org/
[17] Cyfeirier at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Gartref (2003).

- Dywedodd Heddlu De Cymru fod 30 o achosion o drais seiliedig ar anrhydedd wedi bod yng Nghymru yn 2007, a'r rheini'n effeithio ar wrywod a benywod. Nid oedd modd inni gael gwybod beth oedd oedran y bobl hyn oherwydd ystyriaethau ynglŷn â chyfrinachedd, er ein bod yn deall ei bod yn broblem sy'n effeithio ar bobl ifanc.
- Mae trais domestig yn broblem benodol oherwydd efallai fod menywod a phlant yn cael eu gorfodi i aros mewn cartref lle ceir cam-drin, gan eu bod yn dibynnu ar y prif geisydd lloches. Mae'n bosibl bod rhai eraill wedi cyrraedd yn y dirgel a'u bod yn ofni sôn wrth neb am y cam-drin rhag ofn iddynt gael eu harestio a'u hanfon o'r wlad. Mae problem wrth ddarparu llety i fenywod a'u plant sydd "Heb Hawl i Gael Arian Cyhoeddus" ac wrth roi cymorth iddynt dan adran 17.[18]
- Ychydig o wybodaeth sydd gan ymarferwyr ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd gwasgaru am ffurfiau diwylliannol ar gam-drin megis anffurfio organau rhywiol merched a thrais sy'n seiliedig ar anrhydedd.
- Roedd un gweithiwr wedi dod ar draws dau gais am loches ar sail anffurfio organau rhywiol merched ac roedd pobl eraill wedi lled amau bod merched wedi cael eu hanffurfio fel hyn heb deimlo bod ganddynt dystiolaeth ddigonol i fwrw ymlaen â'u pryderon.
- Dywedodd ymarferwyr eu bod yn poeni ynglŷn â chyfeirio pryderon ynglŷn ag amddiffyn plant at y gwasanaethau cymdeithasol rhag ofn iddynt gael eu hystyried yn ethnoganolog neu'n hiliol.
- Soniodd rhai ymarferwyr am agweddau a gwerthoedd hiliol ymhlith eu cydweithwyr.
- Yn 2008, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad fersiwn wedi'i diweddaru o Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan,[19] sy'n cynnwys cyfarwyddyd ynglŷn â ffurfiau diwylliannol neu grefyddol ar gam-drin plant. Cyhoeddwyd hefyd gyfarwyddyd ategol ynglŷn â '*Diogelu Plant rhag Cam-drin sy'n Gysylltiedig â Chred eu bod wedi'u Meddiannu gan Ysbryd*'.[20]
- Yn ddiweddar, darparwyd hyfforddiant amddiffyn plant yn y de gan UKBA a'r WSMP ar gyfer nifer o fudiadau gwirfoddol a statudol.
- Mae Heddlu De Cymru'n arbennig o ragweithiol yn eu gwaith gyda chymunedau lleiafrifoedd ethnig, ac maent wedi datblygu arbenigedd ym maes trais sy'n seiliedig ar anrhydedd. Maent wedi llunio pecyn hyfforddi'n ddiweddar ynglŷn â thrais sy'n seiliedig ar anrhydedd ar gyfer holl heddluoedd y DU.[21] Mae Heddlu De Cymru hefyd wedi datblygu asesiad risg a chynllun amddiffyn ar y cyd â sefydliad Henna, BAWSO a Mewn.[22]
- Cyflwynwyd camau i fynd i'r afael â gwahaniaethau diwylliannol ac i hysbysu pobl sy'n cyrraedd o'r newydd am gyfreithiau amddiffyn plant yn y DU mewn ambell ardal Awdurdod Lleol gan ddarparu gwybodaeth mewn pecynnau cynefino i deuluoedd sydd newydd gyrraedd, a hynny yn yr ardaloedd gwasgaru'n bennaf.
- Yn anecdotaidd m ae gweithiwr amddiffyn plant wedi dechrau yn ei swydd gyda Phlant yng Nghymru i weithio gyda Mudiadau Ffoaduriaid yn y Gymuned er mwyn meithrin eu gallu ym maes gofal ac amddiffyn plant.

[18] *Deddf Plant* 1989
[19] http://www.ssiacymru.org.uk/index.cfm?articleid=298
[20] http://new.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/guidance/2693593/?lang=en
[21] Heddlu De Cymru (2007) *Forced Marriage and Honour Based Violence Training.*
[22] Heddlu De Cymru (2006) *Forced Marriage and Honour Based Violence Risk Assessment and Protection Plan.*

6. Plant sy'n cael eu masnachu

Gofynnwyd i ymarferwyr am eu profiadau neu am eu gwybodaeth am unrhyw achosion masnachu plant neu amheuaeth ynglŷn ag achosion o'r fath a chasglwyd gwybodaeth am yr arferion a'r polisïau presennol o ran mynd i'r afael â phryderon ynglŷn â masnachu.

Nifer yr achosion masnachu plant ledled Cymru

Roedd yn anodd gwybod faint yn union o achosion masnachu plant neu achosion dan amheuaeth sydd. Roedd ymarferwyr yn meddwl bod masnachu plant yn 'broblem anferth'. Roedd yn anodd bod yn glir ynglŷn â data penodol oherwydd bod ymarferwyr yn aml yn rhoi tystiolaeth anecdotaidd ynglŷn ag achosion unigol yr oeddent wedi dod ar eu traws, wedi clywed amdanynt neu wedi amau eu bod yn digwydd. Mae swyddfa Comisiynydd Plant Cymru wedi comisiynu ECPAT[23] i ymgymryd â gwaith ymchwil penodol yng Nghymru ynglŷn â nifer yr achosion masnachu plant. Dengys y canfyddiadau cychwynnol fod gan yr heddlu fwy o ddata dibynadwy nag sydd gan weithwyr proffesiynol eraill.

- O blith 131 o'r rhai sy'n cymryd rhan yn yr ymarfer cwmpasu hwn, roedd pump achos o fasnachu plant wedi'u riportio. Nid oedd modd inni gadarnhau ai pump achos gwahanol oedd y rhain ynteu ai yr un achos a oedd wedi'i riportio gan wahanol ymatebwyr oedd hwn.
- Mae dod o hyd i ddata ystadegol yn anodd a gwaethygir hynny oherwydd nad oes gan staff y rheng flaen y sgiliau a'r wybodaeth i weld arwyddion a fyddai'n awgrymu bod plant wedi cael eu masnachu ai peidio.

Sylweddoli bod masnachu'n digwydd a bod yn ymwybodol ohono

- Mae bwlch anferth o ran ymwybyddiaeth o fasnachu plant ac roedd y wybodaeth a oedd gan ymarferwyr yn amrywio. Nid oedd ymarferwyr mewn ardaloedd nad oeddent yn ardaloedd gwasgaru'n sicr ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng masnachu a smyglo ac ychydig yr oeddent yn ei wybod am natur a phroblemau masnachu plant.
- Roedd gwybodaeth rhai ymarferwyr ynglŷn â masnachu'n gyfyngedig i faterion sy'n ymwneud â chamfanteisio rhywiol.
- Mae ymarferwyr mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd gwasgaru'n tybio mai dim ond yn ninasoedd poblog y de y mae masnachu'n digwydd, er bod tystiolaeth ddiweddar i gangiau masnachu fod ar waith yn Sir Ddinbych, yng Nghonwy ac ar Ynys Môn.[24]
- Adroddwyd bod pob plentyn sy'n cyrraedd o'r tu allan i'r DU o bosibl yn agored i fasnachu ac mae'n anodd adnabod y dioddefwyr oherwydd bod y dogfennau'n annigonol, oherwydd nad yw'r plant yn cyrraedd ardaloedd gwasgaru neu oherwydd eu bod yn mynd ar goll unwaith iddynt gael eu lleoli.
- Mae defnyddio 'stori gyffredin' honedig ynglŷn ag amgylchiadau'r plant wrth iddynt gyrraedd y DU er mwyn cyflwyno'r cais gorau un am loches (ac er mwyn cuddio hunaniaeth masnachwyr a smyglwyr) yn golygu nad oes modd bob tro i rywun adnabod yr unigolion hynny sy'n wynebu risg. Hefyd, os bydd plant wedi cyrraedd yn y dirgel a'u

[23] http://www.ecpat.org.uk/
[24] http://report2007.amnesty.org/eng/Regions/Europe-and-Central-Asia/United-Kingdom

bod wedyn yn dweud wrth yr awdurdodau eu bod wedi cael eu masnachu, maent yn ofni y cânt eu hanfon yn ôl.
- Mae achosion ynysig o drefniadau maethu preifat heb eu cofrestru yn y DU ar gyfer plant nad ydynt yn ddinasyddion yn dangos naill ai fod yr oedolion yn mynd ati'n fwriadol i osgoi cofrestru a/neu fod angen i awdurdodau hyrwyddo'n fwy rhagweithiol y gofynion sydd ar rieni dan *Reoliadau Plant (Trefniadau Maethu Preifat) (Cymru) 2006*.

Masnachu: polisi presennol a datblygu ymarfer

Roedd y datblygiadau polisi ac ymarfer diweddar yn rhoi sylw penodol a haeddiannol i fasnachu plant. Mae sawl datblygiad ar y gweill mewn gwasanaethau ar lefel y DU ac yng Nghymru.

- Canolfan Camfanteisio ar blant a'u Hamddiffyn Ar-lein (CEOP).
- Llinell Gyngor a Gwybodaeth am Fasnachu Plant (CTAIL) yn yr NSPCC ac mewn partneriaeth â'r Ganolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein (CEOP) ac ECPAT UK (Rhoi Terfyn ar Buteindra, Pornograffi a Masnachu) i gynnig ymateb priodol i blant sydd cael eu masnachu ac i ddarparu pecynnau hyfforddi bobl broffesiynol.
- Yng Nghymru, mae Prosiect SERAF Barnardo's yn wasanaeth allgymorth drwy Gymru sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n dioddef camfanteisio rhywiol. Gall hyn gynnig rhywfaint o allgymorth i blant sydd wedi'u masnachu os cânt eu cyfeirio at y prosiect.
- Bwrdd Lleol Diogelu Plant Caerdydd oedd y cyntaf i ddyfeisio protocol amlasiantaeth ar gyfer masnachu ym mis Ionawr 2008.
- Lansiwyd cyfarwyddyd gan Lywodraeth y Cynulliad hefyd yn 2008 ynglŷn â diogelu plant a allai fod wedi cael eu masnachu.[25] Mae'r canllawiau hyn yn ategu gweithdrefnau diwygiedig Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (Llywodraeth y Cynulliad 2008a). Mae'r cyfarwyddyd hwn yn atgyfnerthu'r datblygiadau ym maes deddfwriaeth a pholisi ac yn cynnig tabl crynhoi i alluogi ymarferwyr i restru camau allweddol i'w hystyried. Yn yr ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd gwasgaru, nid oedd ymarferwyr yn gyffredinol yn ymwybodol o gyfarwyddyd masnachu plant Llywodraeth y Cynulliad. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r ddogfen wedi'i lledaenu'n effeithiol eto.
- Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y byddai'r rheini a fyddai'n sylweddoli bod masnachu wedi digwydd o leiaf yn cyfeirio'r achos at y gwasanaethau cymdeithasol neu at yr heddlu petaent yn poeni am ddiogelwch a lles plentyn.
- Dywedodd rhai ymarferwyr y byddent yn teimlo 'allan o'u dyfnder' wrth ymdrin ag achos masnachu. Dywedodd eraill fod yr holl gyfarwyddyd polisi a'r strategaethau ynglŷn â gofalu am blant a'u hamddiffyn yn llethol ar brydiau.
- Er bod Cyfarwyddyd Llywodraeth y Cynulliad 2008 yn amlinellu'r hyn a ddisgwylir gan wahanol ddisgyblaethau a'u cyfrifoldebau, roedd ymarferwyr o lawer o wahanol ddisgyblaethau'n poeni am y rhwystrau sy'n atal pobl rhag gweithio ar lefel amlasiantaeth a rhannu gwybodaeth.
- Ystyrir bod rhannu gwybodaeth am fasnachu a mathau eraill o niwed sylweddol yn broblem oherwydd bod angen sicrhau cydbwysedd rhwng y ffaith bod angen gwybodaeth a'r ffaith bod angen cadw cyfrinachedd.
- Mae Heddlu De Cymru yn rhagweithiol wrth ymwneud â phlant sydd wedi'u masnachu a ffurfiau eraill ar amddiffyn plant. Wrth ymwneud â masnachu, mae Heddlu De Cymru'n gweithio gyda gweddill heddluoedd Cymru a'r DU mewn ymgyrchoedd.

[25] http://new.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/guidance/trafficked/?lang=en

7. Argymhellion

Demograffeg a phlant sy'n ceisio lloches syn cyrraedd Cymru

- **Trosolwg ystadegol**
  Dylai Llywodraeth y Cynulliad gydlynu trosolwg ystadegol o'r sefyllfa yng Nghymru, gan gynnwys sicrhau bod yr asiantaethau perthnasol yng Nghymru'n cael cymorth i ddefnyddio'r Gofrestr Genedlaethol ar gyfer Plant ar eu Pen eu Hunain (NRUC) a sicrhau bod awdurdodau lleol yn cwblhau datganiadau'n brydlon ynglŷn â nifer y plant mewn gofal sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu. Dylid sicrhau bod yr ystadegau hyn ar gael yn rheolaidd er mwyn gallu datblygu gwasanaethau'n briodol.

- **UKBA**
  Dylai UKBA gasglu a chyhoeddi data ynglŷn â nifer yr achosion y mae dadl ynglŷn â'u hoedran yng Nghymru.

- **Rhestr atgoffa wrth ymarfer**
  Dyla'r WSMP, mewn partneriaeth â sefydliadau perthnasol, ddatblygu rhestr atgoffa i gynorthwyo timau sydd ar ddyletswydd argyfwng y tu allan i oriau a heddlu'r rheng flaen i gyflawni'r ddyletswydd statudol i ofalu am bobl ifanc sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu ac i'w hamddiffyn, a hynny'r tro cyntaf y deuir i gysylltiad â hwy.

Asesu oedran

- **Hyfforddiant**
  Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn cael hyfforddiant i asesu oedran, ar sail yr arferion gorau presennol.

- **Protocol**
  Dylai'r WSMP weithio gyda phartneriaid perthnasol i gynnull gweithgor i ddatblygu cynigion er mwyn llunio protocol neu bolisi Cymru gyfan ar gyfer cynnal asesiadau oedran, gan ddilyn yr arferion gorau presennol.

- **Cymorth gan gyfoedion**
  Dylai'r WSMP hwyluso datblygu mecanweithiau cymorth gan gyfoedion a fydd yn rhoi'r sgiliau i ymarferwyr gwaith cymdeithasol sy'n berthnasol i'r camau a'r adnoddau ymarferol ar gyfer asesu oedran mewn ffordd safonol er mwyn ategu'r hyfforddiant a ddarperir eisoes ym maes egwyddorion asesu oedran.

Llety a chymorth o safon

- **Adran 20**
  Dylai adrannau gwasanaethau cymdeithasol asesu anghenion plant yn drwyadl ac yn rheolaidd a'r ddarparpiaeth dan Adran 20 *Deddf Plant* 1989.

- **Cynllunio cyfochrog / triphlyg**
  Dylai adrannau gwasanaethau cymdeithasol sicrhau bod y staff yn ymwybodol o egwyddorion cynllunio cyfochrog / triphlyg ar gyfer pobl ifanc sy'n dynesu at eu 18 oed ac yn rhoi'r egwyddorion hynny ar waith.

- **Lleoliadau priodol**
  Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt gymaint o lwybrau ag y bo modd at leoliadau priodol. Lle bo hynny'n briodol, dylid defnyddio i'r eithaf yr Adnodd Cymorth Comisiynu Plant (CCSR) yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Dylai awdurdodau lleol hefyd geisio cydweithio gyda'i gilydd a chyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu lleoliadau maethu addas ychwanegol ar gyfer y grŵp hwn o blant gan ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd yn sgil Prosiect Cydweithredu Rhanbarthol ar Faethu SEWIC .[26]

- **Eiriolaeth arbenigol**
  Dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau bod eiriolaeth arbenigol yn cael ei darparu ar gyfer plant sy'n ceisio lloches yng Nghymru yn unol â'r ymrwymiad ym Mholisi Cynnwys Ffoaduriaid Llywodraeth y Cynulliad yn 2008.

- **Gwarcheidwaeth**
  Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth y Cynulliad sicrhau dyletswydd gyfreithiol i ddarparu gwarcheidwad statudol ar gyfer pob plentyn sydd wedi'i wahanu oddi wrth ei deulu er mwyn cynorthwyo i gynghori ynglŷn â buddiannau gorau'r plentyn yn unol â Sylwadau Cloi'r CU 2008.

- **Ariannu**
  Dylai Llywodraeth y DU ymrwymo digon o arian i alluogi awdurdodau lleol yng Nghymru i sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu ac sy'n gadael gofal yn cael gofal a chymorth digonol, yn unol â'r hyn y mae Cyfarwyddwyr Cynorthwyol Gwasanaethau Cymdeithasol wedi galw amdano ac o fewn cyd-destun diwygiadau arfaethedig UASC.

- **Rheoliadau maethu preifat**
  Dylai Llywodraeth y Cynulliad gynnal adolygiad o weithredu Rheoliadau Plant (Trefniadau Maethu Preifat) (Cymru) 2006 ac archwilio'r ffordd y cânt eu rhoi ar waith gyda golwg ar ddiogelu plant nad ydynt yn ddinasyddion.

- **Llety diogel i blant mewn teuluoedd**
  dylai UKBA nodi'n benodol y gofynion sydd ar y rheini sydd wedi'u contractio i ddarparu tai ar gyfer plant a chyhoeddi'r rheini. Dylai hyn gynnwys dyletswydd glir i ddarparwyr llety gofnodi pryderon ynglŷn ag amddiffyn plant yn unol â Phrotocol Gofalu ac Amddiffyn Diogelu Plant Cymru Gyfan.

- **Gofalwyr ifanc**
  dylai darparwyr gwasanaethau gofalwyr ifanc ledled Cymru sicrhau bod eu gwasanaethau'n cael eu hyrwyddo o fewn rhwydweithiau ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

[26] Cydweithfa Gwella De Ddwyrain Cymru

Addysg

- **Gweithwyr proffesiynol y rheng flaen**
  Fel gweithwyr proffesiynol ar y rheng flaen, dylai pob athro/athrawes gael ei hyfforddi i sicrhau eu bod yn llwyr ddeall y materion gofalu ac amddiffyn sy'n berthnasol i blant sy'n ceisio lloches, gan gynnwys cyfarwyddyd Llywodraeth y Cynulliad ynglŷn â materion megis masnachu ac ymdrin â bwlio.

- **Ariannu myfyrwyr**
  Dylai Llywodraeth y Cynulliad alluogi plant sy'n ceisio lloches i gael Lwfans Cynhaliaeth Addysg a grantiau a bwrsariaethau eraill cysylltiedig a roddir i fyfyrwyr.

- **ESOL**
  Dylai'r ddarpariaeth Saesneg fel Ail Iaith fod ar gael i bobl ifanc 16-18 oed i'w gwneud yn llai ynysig ac er mwyn bod yn gyfrwng ymarferol i gryfhau'r warchodaeth ar eu cyfer.

Gwasanaethau cyfieithu ac iaith

- **Arferion da**
  Dylai Llywodraeth y Cynulliad gryfhau'r arweiniad presennol er mwyn ei gwneud yn glir na ddylai asiantaethau ac ymarferwyr ddefnyddio plant i gyfieithu.

- **Prosiect Dehongli a Chyfieithu Cymru**
  Dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau bod y prosiect hwn yn mynd i'r afael â'r materion sy'n berthnasol i warchod plant sy'n ceisio lloches a phlant sy'n cael eu masnachu, er enghraifft, drwy ddarparu cyfieithwyr o safon drwy gyfrwng cronfa ddata ganolog o wasanaethau cyfieithu sydd wedi cael archwiliad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) ac wedi cael eu cymeradwyo'n broffesiynol.

Iechyd

- **Nyrs arbenigol**
  Rhaid sicrhau darpariaeth nyrs arbenigol gydag ymrwymiad ariannu tymor hir er mwyn sicrhau mynediad teg at ofal iechyd.

- **Hyfforddiant**
  Dylai ymddiriedolaethau iechyd sicrhau bod hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth mewnol yn mynd i'r afael â'r materion iechyd sy'n berthnasol i blant sy'n ceisio lloches a phlant sy'n cael eu masnachu.

- **Cwnsela yn yr ysgol**
  Dylai Llywodraeth y Cynulliad gynnwys hyfforddiant ar gyfer pob cwnselydd mewn ysgolion o fewn gwasanaeth cwnsela haen-1 mewn ysgolion er mwyn iddynt ddeall yn well brofiadau plant a phobl ifanc sy'n ceisio lloches.

- **Iechyd meddwl arbenigol**
  Dylai'r asiantaethau hynny sy'n cydgomisiynu CAHMS ystyried anghenion iechyd meddwl plant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid neu'n ceisio lloches yn unol ag argymhellion Polisi Cynnwys Ffoaduriaid Llywodraeth y Cynulliad.

Y broses lloches

- **Defnyddio technoleg i gefnogi plant**
  Dylai UKBA ystyried ehangu defnyddio cynadledda fideo gyda chyfieithwyr a recordiadau digidol yn hytrach nag ysgrifennu nodiadau â llaw yn ystod cyfweliadau.

- **Cyfleusterau gofal plant**
  Dylai UKBA ymrwymo i ddarparu nawdd tymor hir ar gyfer cyfleusterau 'gofal-plant' yn ystod y broses cyfweld. Dylai contractau a roddir i ddarparwyr sicrhau bod y gwasanaeth yn glynu at safonau arferion da perthnasol ym maes gofal plant.

- **Mesur Mewnfudo a Dinasyddiaeth Drafft**
  Rhaid sefydlu safonau gweithredu clir er mwyn sicrhau bod y cymalau perthnasol sy'n ymwneud â 'diogelu a hyrwyddo lles plant' yn cael eu rhoi ar waith yn UKBA a hefyd yng nghyswllt y darparwyr sydd wedi'u contractio i ddarparu gwasanaethau ar eu cyfer. Rhaid sefydlu trefniadau adolygu er mwyn sicrhau cydymffurfiad.

- **Cadw'n gaeth**
  Dylai Llywodraeth y DU roi'r gorau i gadw plant yn gaeth. Rhaid i UKBA adolygu'r amodau lle bydd plant a theuluoedd yn cael eu cludo i ganolfannau anfon-o'r-wlad a sicrhau bod plant yn cael eu diogelu a'u lles yn cael ei warchod bob amser.

- **Dychwelyd pobl**
  Ni ddylai plant sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu gael eu dychwelyd i'r wlad y daethant ohoni nac i wlad arall onid oes modd dangos yn glir bod hyn er budd gorau'r plentyn. Rhaid i UKBA roi sylw i faterion diogelu plant sydd ar y gofrestr Amddiffyn Plant wrth ystyried dychwelyd plant sydd gyda'u teuluoedd.

- **Heb hawl i gael arian cyhoeddus**
  Dylai awdurdodau lleol fod yn monitro'r costau sydd ynghlwm wrth gefnogi plant (a phobl eraill) a chanddynt statws 'heb hawl i gael arian cyhoeddus' er mwyn bod ffigurau dibynadwy ar gael a bod modd asesu i ba raddau y mae hyn yn broblem yng Nghymru. Dylent hefyd sicrhau bod pob ymarferydd ar y rheng flaen yn cael gafael ar wybodaeth ynglŷn â datblygiadau ym maes polisi ac arferion 'heb hawl i gael arian cyhoeddus' er mwyn cefnogi gwell canlyniadau ar gyfer plant y mae mesurau o'r fath yn effeithio arnynt.[27]

Byrddau Lleol Diogelu Plant

- **Codi proffil**
  Dylai'r Byrddau sicrhau bod eu haelodau'n ymwybodol o anghenion plant sy'n ceisio lloches ac sy'n cael eu masnachu ac annog asiantaethau sydd â chylch gorchwyl penodol

[27] http://www.islington.gov.uk/Health/ServicesForAdults/nrpf_network/default.asp

sy'n ymwneud â phlant sy'n ceisio lloches i fod yn aelodau, er enghraifft yr WSMP, Cyngor Ffoaduriaid Cymru, Timau Rhanbarth UKBA, Sefydliadau Cymunedau Ffoaduriaid (RCOs).

- **Gwaith partneriaeth a rhannu gwybodaeth**
  Dylai'r Byrddau sicrhau bod eu dyletswyddau i sefydlu gwaith partneriaeth a rhannu gwybodaeth, gan gynnwys materion sy'n effeithio ar blant sy'n ceisio lloches e.e. protocolau lleol ar gyfer Anffurfio Organau Rhywiol Merched a materion eraill sy'n ymwneud â niwed sylweddol.

- **Lledaenu gwybodaeth**
  Dylai'r Byrddau gyflawni'r gofyniad i ledaenu gwybodaeth drwy ledaenu Cyfarwyddyd diweddaraf Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008a) ar ddiogelu plant rhag eu Masnachu (Llywodraeth y Cynullaid 2008d) a chyfarwyddyd ynglŷn â cham-drin sy'n gysylltiedig â'r gred bod pobl yn cael eu meddiannu gan ysbryd (Llywodraeth y Cynulliad 2008g).

- **Ymwneud â'r sector Sefydliadau Cymunedau Ffoaduriaid (RCO)**
  Dylai'r Byrddau fynd i'r afael â'r ofn sydd gan bobl o wahaniaethau diwylliannol a hyrwyddo deialog rhwng cymunedau RCO a gwasanaethau ffurfiol, fel rhan o strategaeth ehangach i gryfhau'r trefniadau gyda'r gymuned Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ehangach.

Plant sy'n cael eu masnachu

- **Statws**
  Dylai Llywodraeth y DU sicrhau bod plant sy'n cael eu masnachu'n cael eu gwarchod rhag camfanteisio a/neu gam-drin a'u bod yn cael eu gweld yn ddioddefwyr yn hytrach na chael eu trin fel fewnfudwyr anghyfreithlon.

- **Monitro**
  Gan nad oes system ar gael ledled y DU, dylai Llywodraeth y Cynulliad weithio gyda'r heddlu a chyda Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yng Nghymru (WACPO), UKBA ac asiantaethau allweddol eraill ar y rheng flaen i ddatblygu mecanweithiau systematig er mwyn adnabod a chofnodi achosion hysbys neu bosibl o fasnachu plant e.e. cofrestr ganolog er mwyn monitro nifer yr atgyfeiriadau a gofnodir ac er mwyn cael darlun mwy cywir o'r niferoedd a'r patrymau sy'n codi.

- **Hyfforddiant sylfaenol**
  Dylai hyfforddiant proffesiynol cychwynnol ar gyfer disgyblaethau proffesiynol perthnasol (e.e. gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr tai, gweithwyr iechyd ac athrawon) gynnwys ymwybyddiaeth o fasnachu plant. Dylai asiantaethau y mae eu staff o bosibl yn bwynt cyswllt ar gyfer plant sy'n cael eu masnachu sicrhau bod pob aelod o staff yn cael hyfforddiant sylfaenol er mwyn iddynt adnabod arwyddion masnachu a'r cyfrifoldebau sydd arnynt yn y fan a'r lle i ofalu am y plant hynny a'u hamddiffyn.

- **UKBA**
  Dylai bennu cylch gorchwyl clir a thryloyw ar gyfer pawb a enwebwyd i arwain ym maes Masnachu Rhanbarthol yn y DU sy'n cynnwys dyletswydd i sicrhau bod pob aelod o staff ar y rheng flaen yn cael hyfforddiant priodol ar fasnachu plant.

- **Llywodraeth Cynulliad Cymru**
  Dylai neilltuo adnoddau i gefnogi'r gwaith o roi Protocol Cymru Gyfan ar gyfer Diogelu Plant a Phobl Ifanc sy'n wynebu Risg Camfanteisio Rhywiol 2008 ar waith yn effeithiol gan awdurdodau lleol. Mae hwnnw'n argymell defnyddio Fframwaith Asesu Risg SERAF Barnardo's, a dylid hefyd sicrhau bod y Byrddau Lleol Diogelu Plant yn adolygu'r cynnydd o ran rhoi'r Protocol newydd ar waith.

- **Gwasanaethau Arbenigol**
  Dylai Llywodraeth y Cynulliad adolygu lefelau'r ddarpariaeth yng Nghymru ar gyfer pawb sy'n dioddef yn sgil masnachu plant e.e. prosiect SERAF Barnardo's sy'n gallu cefnogi plant sydd wedi dioddef camfanteisio rhywiol, ac sy'n gallu gweld bylchau posibl yn y ddarpariaeth.

Cyngor parhaus, diweddaru polisi a gwybodaeth

- **Arbenigwr i arwain yn lleol**
  Dylai awdurdodau lleol lystyried dynodi aelod o'r staff i arwain a bod yn gyfrifol am gynnal arbenigedd a chasglu a lledaenu gwybodaeth sy'n berthnasol i blant sy'n ceisio lloches. Gallai hyn sicrhau cyd-destun lleol a datblygu arbenigedd awdurdodau lleol.

- **Rhwydwaith Cymru Gyfan ar gyfer Ymarferwyr ym maes Plant sy n Ceisio Lloches a Phlant sy n Ffoaduriaid**
  Dylai WSMP adolygu cylch gorchwyl a sicrhau bod y Rhwydwaith yn cadw cydbwysedd rhwng arferion a pholisi. Dylai WSMP hefyd adolygu sut y maent yn sicrhau bod ymarferwyr yn y gogledd ac yn canolbarth yn cael cymorth gan y Rhwydwaith hwn.

- **Diweddaru gwybodaeth am bolisi ac ymarfer ym maes plant sy'n ceisio lloches**
  Dylai'r WSMP barhau i ledaenu'r diweddariadau hyn ar ôl trosglwyddo'r gwaith gan Achub y Plant ddiwedd 2008.

Hyfforddiant

- **Hyfforddiant proffesiynol cychwynnol**
  Dylai hyfforddiant ym maes gofal ac amddiffyn plant sy'n ceisio lloches a phlant sy'n cael eu masnachu fod yn rhan orfodol o gymhwyster proffesiynol i weithwyr proffesiynol perthnasol e.e. gweithwyr cymdeithasol, athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill ym maes addysg, yr heddlu, gweithwyr iechyd.

- **Cyngor Gofal Cymru**
  Fel y corff sy'n rheoleiddio hyfforddiant gwaith cymdeithasol, dylai Cyngor Gofal Cymru ddod â'r adroddiad hwn a'i argymhellion i sylw pob rhaglen gradd ac ôl-gymhwyso gwaith cymdeithasol yng Nghymru, gan ofyn iddynt adolygu sut y dylid adlewyrchu goblygiadau'r adroddiad yn eu cwricwlwm.

- **Cyngor Gofal Cymru**
  Dylai sicrhau bod yr adroddiad a'i oblygiadau'n cael eu hystyried y tro nesaf yr adolygir y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol i Weithwyr Cymdeithasol.

- **Hyfforddiant proffesiynol parhaus**
  Dylai cyflogwyr a chyrff achrededig sicrhau hyfforddiant gloywi rheolaidd ym maes gofal ac amddiffyn plant sy'n ceisio lloches a phlant sy'n cael eu masnachu.

- **Hyfforddiant amlasiantaeth**
  Dylai'r Byrddau Lleol Diogelu Plant arwain o ran hwyluso hyfforddiant amlasiantaeth er mwyn egluro'r protocolau cydweithio a rhannu gwybodaeth yn fwy clir yn ardal pob awdurdod lleol.

- **Gweithiwr plant WSMP**
  Dylai'r rôl hon hwyluso meithrin gallu a datblygu gwybodaeth drwy weithio gydag ystod o adnoddau a swyddi o fewn y sector a'u defnyddio e.e. Polisi Amddiffyn Plant Sefydliadau Cymunedol Ffoaduriaid Plant yng Nghymru a'r Swyddog Datblygu Cyngor, yn hytrach na gwneud y gwaith i gyd yn uniongyrchol. Dylai hyn gynnwys hwyluso hyfforddiant untro a digwyddiad rhannu gwybodaeth i weithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill yn yr ardaloedd eraill nad ydynt yn ardaloedd gwasgaru.

Anghenion hyfforddi a ddynodir gan ymarferwyr

- **Amrywiaeth a gwahaniaeth**
  Ymwybyddiaeth ddiwylliannol, gweithio ar draws diwylliannau, hybu cydraddoldeb rhwng yr hiliau.

- **Materion sy'n ymwneud yn benodol â lloches**
  Asesu oedran, ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac asesu oedran, budd-daliadau a hawliau, cynllunio cyfochrog / triphlyg, datblygu arferion da gyda phlant sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu, proses NAM a'r rhaglen datrys hen achosion, deddfwriaeth ac ymarfer ym maes lloches fel y maent yn effeithio ar blant.

- **Masnachu**
  Codi ymwybyddiaeth sylfaenol o fasnachu a chefnogi plant, a darparu hyfforddiant ynghylch rheoliadau maethu preifat.

- **Materion eraill sy'n ymwneud ag amddiffyn plant**
  Rhannu gwybodaeth, materion sylfaenol, datblygu protocolau rhannu gwybodaeth, ymagweddau amlddisgyblaethol, gweithio gyda theuluoedd duon a lleiafrifoedd ethnig ym maes amddiffyn plant, anffurfio organau rhywiol merched - codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant - trais seiliedig ar anrhydedd – codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant, cam-drin plant sy'n gysylltiedig â'r gred bod ysbryd yn eu meddiannu – ymwybyddiaeth a hyfforddiant.

Cydnabyddiaeth

Gan ddiolch i'r cyrff a ganlyn:

Asiantaeth Ffin y DU
Barnardo's
Comisiynydd Plant Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Ffoaduriaid Cymru
Cyngor Gofal Cymru
Heddlu Gogledd Cymru
NSPCC
Partneriaeth Mudo Strategol Cymru
Tîm Mynediad Iechyd Abertawe

Gyda diolch arbennig i bawb a fu'n rhan o'r gwaith ymchwil ac i Helen O'Hara a Kate Tucker (WSMP); Adam Sinfield (UKBA); Rhian Croke, Anne Crowley a Catherine Rees (Achub y Plant).

Awduron: Tracey Maegusuku-Hewett, Louise Kalicinski, a'r Dr Nina Maxwell, Canolfan Gwaith Cymdeithasol ac Ymchwil Gofal Cymdeithasol, Prifysgol Abertawe

Golygwyd gan: Sian Thomas a June Vandamme, Achub y Plant

Am fwy o gopïau o'r adroddiad hwn cysylltwch â: Walesinfo@savethechildren.org.uk

www.achubyplant.org.uk

Achub y Plant yw elusen blant annibynnol y byd.
Rydym wedi'n digio nad oes gan filiynau
o blant ofal iechyd, addysg, amddiffyniad
na bwyd digonol o hyd. Rydym yn gweithio'n
ddiflino er mwyn sicrhau bod gan bob plentyn
el hawlieau ac rydym yn benderfynol
o wneud newidiadua pellach, cyflymach.
Faint? Pa mor gyflym? Mae hynny yn eich dwylo chi.

Save the Children® Registered UK charity no.213890